VICTIM SUPPORT

# EICH ADBORTH A’CH CWYNION

victimsupport.org.uk

10

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu'r gefnogaeth orau posib i bawb sy'n dioddef yn sgil troseddau. Rydym eisiau clywed sut rydym yn dod yn ein blaenau fel y gallwn barhau i wella ein cefnogaeth i chi.

Os oes gennych unrhyw adborth cadarnhaol, pryderon neu gwynion am ein gwasanaethau, cysylltwch â ni i roi gwybod i ni.

## Sut i gysylltu

Gallwch chi gysylltu â ni yn y ffyrdd canlynol gydag unrhyw adborth neu gwynion.

- Drwy lenwi ffurflen yn: **www.victimsupport.org.uk/make-complaint**
- Drwy ein ffonio ni yn:

  – eich swyddfa Victim Support leol

  – ein Supportline ar **08 08 16 89 111**

  – ein prif swyddfa ar **020 7268 0200**

  Rhowch **18001** o flaen unrhyw un o'n rhifau i gysylltu â ni drwy ddefnyddio Tecstio'r Genhedlaeth Nesaf.
- Drwy ysgrifennu atom yn:

**Adran gwynion. Victim Support, Adeilad 3, Parc Busnes Dwyreiniol, Lôn Wern Fawr, Pentref Llaneirwg, Caerdydd CF3 5EA**

Er mwyn ein helpu i ddod yn ôl atoch chi cyn gynted â phosib, byddwch gystal â rhoi gwybod i ni:

- eich enw llawn
- eich manylion cysylltu
- sut yr hoffech i ni gysylltu â chi
- y gwasanaeth neu weithgaredd arall y mae eich adborth neu'ch cwyn yn perthyn iddo

- beth ddigwyddodd a phryd.

## Ein haddewid i chi

- Byddwn yn trin unrhyw bryderon neu gwynion yn gyfrinachol, ac ni fyddant fyth yn effeithio ar eich perthynas â ni nac yn eich rhwystro rhag derbyn ein gwasanaethau.
- Bydd eich pryder neu gŵyn wastad yn cael ei thrin gan uwch-aelod staff nad ydynt yn gysylltiedig â'r sefyllfa fel arall.
- Byddwn yn cysylltu â chi o fewn **tri diwrnod gwaith** i gydnabod derbyn eich adborth, pryder neu gŵyn.
- Mewn achos o gŵyn ffurfiol, byddwn yn cynnal ymchwiliad llawn a manwl. Rydym yn anelu at gwblhau'r ymchwiliad hwn o fewn **30 diwrnod gwaith**.
- Byddwn yn cysylltu â chi i egluro canlyniad ein hymchwiliad i'ch pryder neu gŵyn.
- Os na fyddwch yn fodlon â chanlyniad yr ymchwiliad, byddwn yn adolygu'r penderfyniad drwy ein proses apeliadau. Yna byddwn yn cysylltu â chi gyda'n penderfyniad terfynol.

## Mae amrywiaeth o bwys ac rydym yn ei werthfawrogi

Rydym yn ymrwymedig i gefnogi anghenion y cymunedau amrywiol rydym yn eu gwasanaethu. Gallwn ni ddarparu cyfieithwyr a gwybodaeth mewn fformatau gwahanol. Os oes gennych anghenion ychwanegol, rhowch wybod i ni er mwyn i ni allu rhoi'r gefnogaeth iawn yn ei lle.

## Ble i fynd i gael cymorth:

Rydym yn elusen annibynnol sy’n cynnig cymorth cyfrinachol am ddim i bobl y mae troseddau a digwyddiadau trawmatig yn effeithio arnynt.

I gael gwybodaeth a chymorth, cysylltwch â ni drwy:

- ffonio: Supportline **08 08 16 89 111**
- defnyddio ein gwasanaeth sgwrsio byw 24/7: **victimsupport.org.uk/live-chat**
- defnyddio BSL: **victimsupport.org.uk/bsl**
- Ar-lein: **victimsupport.org.uk**

I gael gwybod sut gallwch chi’n helpu ni, ewch i **victimsupport.org.uk/get-involved**

**@VictimSupport**

**VictimSupport**

**victimsupport_uk**

**Linkedin.com/company/victim-support**

Cyhoeddwyd gan Victim Support
Llywydd EHB Y Dywysoges Frenhinol

Victim Support, Llawr Gwaelod, Adeilad 3, Parc Busnes Dwyreiniol, Lôn Wern Fawr, Pentref Llaneirwg, Caerdydd CF3 5EA
Ffôn: 020 7268 0200

Cofrestriad elusen: 298028 Rhif cwmni: 2158780
Cofrestrwyd yn Lloegr. Cyfyngedig trwy warant.
Swyddfa gofrestredig fel uchod.

Ebrill 2024 | P2714 © 2024 Victim Support